# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-19-08)**

## SLC189

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw penodol i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008. Mae'r Rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau helaeth i'r prif Reoliadau, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr rhan-amser. Maent hefyd yn cywiro gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r prif Reoliadau.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu Atodlen 6 newydd i'r prif Reoliadau. Yn y testun Cymraeg a Saesneg, mae Paragraff 7(b) o'r Atodlen honno'n cynnwys croesgyfeiriad at baragraff 7, ond dylai gyfeirio at baragraff 6. Mae'r cyd-destun yn egluro'r bwriad, ond dylid cywiro hyn y tro nesaf y caiff y prif Reoliadau eu diwygio neu eu cydgyfnerthu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Medi 2008**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau adrodd a nodir yn yr adroddiad ac mae'n bwriadu cywiro'r gwall pan ddaw'r cyfle cyntaf i wneud hynny, ac mae hynny'n debygol o fewn y 6 mis nesaf.